



Ein cyf/Our ref MA-JJ-0060-24

Dave Holmes
Managing Director
Snowdonia Pumped Hydro

E-bost: info@snowdoniapumpedhydro.co.uk

30 Ionawr 2024

Annwyl Mr Holmes

**DEDDF CYNLLUNIO 2008 – ATODLEN 6
RHEOLIADAU CYNLLUNIO SEILWAITH (NEWID A DIRYMU GORCHMYNION
CYDSYNIAD DATBLYGU) 2011
CAIS AM NEWID ANSYLWEDDOL I ORCHYMYN GORSAF GYNHYRCHU STORFA
BWMPIO GLYN RHONWY 2017**

1. Rwyf wedi ystyried y cais a wnaed gan Snowdonia Pumped Hydro Ltd. (y ceisydd) am newid ansylweddol i Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017 (y Gorchymyn), fel y'i cywirwyd gan Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Cywiro) 2017 ac fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygio) (Cymru) 2021.
2. Mae'r Gorchymyn yn rhoi cydsyniad datblygu i adeiladu a gweithredu cynllun storfa bwmpio 99.9MW yn chwareli Glyn Rhonwy a Chwarel Fawr yng Ngwynedd. Rhoddwyd y Gorchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 8 Mawrth 2017.
3. Diwygiodd Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygio) (Cymru) 2021 y dyddiad y mae'n ofynnol i'r datblygiad gychwyn o 28 Mawrth 2022 i 29 Mawrth 2024. Roedd rhesymau'r ceisydd dros geisio'r estyniad amser yn ymwneud â chyfyngiadau COVID-19, a ataliodd waith arolygu a monitro, er enghraifft, rhag cael ei wneud, a oedd yn golygu na ellid bodloni gwahanol ofynion y Gorchymyn.
4. Mae'r cais presennol yn ceisio estyniad amser pellach ar gyfer cychwyn y datblygiad awdurdodedig i 29 Mawrth 2026. Mae'r wybodaeth ategol a gyflwynwyd gyda'r cais yn esbonio bod llawer o'r gwaith roedd angen ei wneud i fodloni'r gwahanol ofynion yn y Gorchymyn wedi'i gyflawni. Mae gwaith i gyflawni gofynion y Gorchymyn yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, mae datganiad ategol y ceisydd yn esbonio bod cynnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

[@llyw.cymru](mailto:info@llyw.cymru)
[@gov.Wales](mailto:info@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sylweddol na welwyd mo'i debyg o'r blaen wedi bod mewn costau cyfalaf ar gyfer y prosiect, sy'n golygu bod penderfyniad buddsoddi cadarnhaol yn debygol o ddibynnu ar ganlyniad un o gynlluniau cymorth Llywodraeth y DU, y mae'r ceisydd yn disgwyl iddo gael ei gyhoeddi yn 2024 ac, felly, bydd angen ymestyn y dyddiad y bydd yn ofynnol i'r datblygiad gychwyn.

Ymgynghoriad

5. Roedd rheoliadau 6 a 7 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchmynion Cydsyniad Datblygu) 2011 (fel y'u diwygiwyd) (Rheoliadau 2011) yn nodi'r broses ar gyfer cyhoeddi cais am newid ansylweddol ac ymgynghori arno. Mae'r ceisydd wedi darparu datganiad ymgynghori a chyhoedduswydd sy'n cadarnhau'r camau y mae wedi'u cymryd er mwyn cydymffurfio â'r gofynion yn Rheoliadau 2011.
6. Cafwyd gwrthwynebiadau gan dri thrigolyn lleol a ddadleuodd nad oedd unrhyw gyfiawnhad dros yr estyniad amser arfaethedig ar gyfer cychwyn y prosiect a'i fod yn parhau i greu ansicrwydd i'r gymuned leol. Lleisiwyd pryderon ynghylch y canlynol hefyd: effaith y cynllun ar Safle Treftadaeth y Byd yn Llyn Padarn; mynediad i'r safle; effeithiau gweithgareddau adeiladu, sŵn, llwch a llygredd. y risg sy'n gysylltiedig â defnyddio'r chwarel at y diben arfaethedig, a'r angen am gysylltiad grid.
7. Mae Cadw yn nodi bod "Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru" wedi'i dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO yn 2022. Mae Cadw o'r farn y byddai'r cynllun yn arwain at newid gweledol bach o Safle Treftadaeth y Byd, ond na fyddai'n effeithio ar y profiad a geir, y ffordd y caiff ei ddeall a'i werthfawrogi.
8. Roedd yr ymateb cychwynnol gan Cyfoeth Naturiol Cymru dyddiedig 10 Tachwedd yn ceisio gwybodaeth ychwanegol gan y ceisydd er mwyn egluro rhai pwyntiau technegol yn y wybodaeth amgylcheddol a ddarparwyd gyda'r cais. Ar ôl i wybodaeth ychwanegol gael ei chyflwyno gan y ceisydd, cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd yn gwrthwynebu'r cais.
9. Ni chododd Dŵr Cymru, National Gas na'r Weinyddiaeth Amddiffyn unrhyw wrthwynebiadau. Darparodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ymateb yn nodi nad yw'r cynllun yn dod o fewn pellteroedd ymgynghori unrhyw Osodiad Peryglon Mawr neu Biblinell Peryglon Damweiniau Mawr.

Ystyried y cais

10. Rwyf wedi ystyried a yw'r cais yn un am newid sylweddol neu ansylweddol. Nid oes unrhyw ddiffiniad statudol o'r hyn sy'n gyfystyr â newid "sylweddol" neu "ansylweddol" at ddibenion Atodiad 6 i Ddeddf Cynllunio 2008 (Deddf 2008) a Rhan 1 o Reoliadau 2011. Mae paragraff 2(2) o Atodlen 6 i Ddeddf 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth benderfynu a yw newid yn sylweddol, ystyried effaith y newidiadau ar y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu fel y'i gwnaed yn wreiddiol.
11. Mae "Guidance on Changes to Development Consent Orders", a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn 2015, yn nodi'r amrywiaeth o brosiectau sy'n cael eu cydsynio drwy Ddeddf 2008 ac mae'r amrywiaeth o newidiadau a allai, o bosibl, gael eu cynnig ar gyfer prosiect unigol yn golygu nad yw'n bosibl ceisio rhagnodi a fyddai unrhyw fathau penodol o newid yn sylweddol neu'n ansylweddol. Bydd penderfyniadau o'r fath yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos penodol. Fodd bynnag, mae'r canllawiau yn nodi y gall fod amgylchiadau sy'n awgrymu bod newid i gydsyniad yn fwy tebygol o gael ei

drin fel newid sylweddol, er mai'r man cychwyn yn unig yw'r rhain ar gyfer asesu pa mor sylweddol yw newid. Mae'r amgylchiadau hyn fel a ganlyn:

- (i) A fyddai angen Datganiad Amgylcheddol wedi'i ddiweddarau er mwyn ystyried effeithiau newydd neu sylweddol wahanol ar yr amgylchedd sy'n debygol o fod yn arwyddocaol.
- (ii) A fydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) neu drwydded newydd neu ychwanegol mewn perthynas â Rhywogaeth(au) a Warchodir gan Ewrop.
- (iii) A fyddai'r newid yn awdurdodi caffael yn orfodol unrhyw dir, neu fuddiant mewn tir neu hawliau dros dir, na chafodd ei awdurdodi drwy'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu presennol.
- (iv) Yr effeithiau posibl ar fusnesau a thrigolion mewn perthynas â materion megis amwynder gweledol a achosid gan newidiadau i faint neu uchder adeiladau, effeithiau ar yr amgylchedd naturiol neu adeiledig ac effeithiau traffig ychwanegol.

Datganiad Amgylcheddol

12. Ategir y cais gan Arfarniad Amgylcheddol, sy'n ystyried a fyddai ymestyn yr amserlen ar gyfer cychwyn datblygiad 24 mis yn debygol o gael unrhyw effeithiau newydd, neu sylweddol wahanol, a fyddai'n debygol o fod yn effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd.
13. Daw'r Arfarniad Amgylcheddol i'r casgliad nad oes unrhyw newidiadau wedi'u nodi a fyddai'n cael effeithiau newydd neu sylweddol wahanol a fyddai'n debygol o fod yn effeithiau arwyddocaol. Byddai'r gofynion yn y Gorchymyn y bwriedir iddynt gyfyngu ar effeithiau ar dderbynyddion yn parhau'n gymwys, yn ogystal â mesurau lliniaru y cytunwyd arnynt yn flaenorol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â chasgliadau cyffredinol yr arfarniad.
14. Rwy'n fodlon nad oes angen Datganiad Amgylcheddol wedi'i ddiweddarau ar gyfer yr estyniad amser arfaethedig ar gyfer cychwyn y prosiect.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

15. Mae "Adolygiad o Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 2023" (Adolygiad HRA) wedi'i gyflwyno gyda'r cais. Mae'n diweddarau Adroddiad HRA 2021, a oedd yn cefnogi'r cais am Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygio) (Cymru) 2021. Mae Adolygiad HRA yn ystyried unrhyw bolisi neu ganllawiau a ddiweddarwyd ers i'r Adroddiad HRA 2021 gael ei lunio a chwiliad wedi'i ddiweddarau am gynlluniau a phrosiectau eraill i'w hystyried wrth asesu effeithiau ar y cyd ac yn ailystyried y potensial ar gyfer Effeithiau Sylweddol Tebygol ac Effeithiau Andwyol ar Gyfanrwydd yng ngoleuni unrhyw wybodaeth newydd a nodwyd.
16. Mae Adolygiad HRA yn nodi, fel y gwnaeth Adroddiad HRA 2021, yn achos y mwyafrif o safleoedd Ewropeaidd, nad oes unrhyw Effeithiau Sylweddol Tebygol yn debygol o godi. Lle y rhagwelir y bydd y datblygiad arfaethedig yn cael Effeithiau Sylweddol Tebygol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn ac Ardal Cadwraeth Arbennig Glynllifon, mae'r mesurau lliniaru a nodwyd yn Adroddiad HRA 2021 yn aros yn ddigyfnewid. Daw Adolygiad HRA i'r casgliad na fyddai'r cynllun arfaethedig yn arwain at unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd Ewropeaidd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno ag Adolygiad HRA.
17. Gan fod y canfyddiadau yn Adolygiad HRA yr un peth â'r rhai yn Adroddiad HRA 2021, i bob diben, rwy'n fodlon, at ddibenion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a

Rhywogaethau 2017, na fyddai'r prosiect yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw rai o'r safleoedd a nodwyd.

18. Rwyf hefyd yn fodlon, o ran ystyried a yw'r cais yn cynnwys newid ansylweddol, nad oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol at ddibenion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Caffael yn Orfodol

19. Nodaf nad yw'r newidiadau arfaethedig yn gofyn am unrhyw ymarfer caffael yn orfodol.

Yr Effaith ar Drigolion a Busnesau Lleol

20. Nodaf y gwrthwynebiadau a'r sylwadau gan drigolion lleol. Wrth i'r oedi cyn cychwyn y prosiect ymestyn, mae arwyddocâd posibl yr ansicrwydd i drigolion a busnesau lleol yn cynyddu hefyd. Gallai ansicrwydd ynghylch a fydd y prosiect yn cychwyn a dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith adeiladu ymhellach yn y dyfodol yn amharu ar lesiant a phenderfyniadau buddsoddi rhai trigolion a busnesau. Byddwn yn pryderu pe na bai cydsyniad o'r math hwn yn cynnwys terfyn amser ar gyfer cwblhau'r datblygiad ond rwy'n fodlon nad yw maint yr effaith a achosir drwy ohirio'r prosiect hwn am ddwy flynedd arall yn gyfystyr â newid sylweddol at ddiben y cais hwn.
21. Ar wahân i'r pwyntiau uchod, nodaf na fyddai'r effeithiau ar fusnesau a thrigolion lleol yn newid.

Ystyriaethau eraill

Deddf Cydraddoldeb 2010

22. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys "dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol" i'r sector cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyladwy wrth arfer eu swyddogaethau i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu mewn perthynas â'r "nodweddion gwarchoddedig" canlynol: oedran; rhywedd; ailbennu rhywedd; anabled; priodas a phartneriaethau sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd a chred; a hil. Rwy'n fodlon nad oes unrhyw dystiolaeth o niwed, diffyg parch at gydraddoldebau na diystyrwch o faterion cydraddoldeb mewn perthynas â'r cais hwn.

Deddf Hawliau Dynol 1998

23. Rwyf wedi ystyried y posibilrwydd bod y Cais yn tresmasu ar hawliau dynol mewn perthynas â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nodaf na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i dir gael ei brynu'n orfodol ac rwy'n fodlon na fyddai caniatáu newidiadau yn anghydnaws ag unrhyw hawl o dan y Confensiwn a ddiogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

24. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgymryd â gwaith datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion llesiant.

Amcanion Llesiant

25. Rwyf wedi ystyried i ba raddau y mae caniatáu'r diwygiad ansylweddol i'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn cyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Rwy'n cydnabod y bydd rhai effeithiau amgylcheddol negyddol dros dro yn ystod y cam adeiladu a fyddai'n cael effaith negyddol gyfyngedig ar yr amcan o wneud ein dinasoedd, trefi a phentrefi yn fannau hyd yn oed yn well i fyw a gweithio ynddynt.
26. Fodd bynnag, byddai penderfyniad i ganiatáu'r diwygiad ansylweddol yn cael effaith gadarnhaol ar yr amcanion i "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl" ac "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn". O ran yr amcan "Gwneud ein dinasoedd, trefi a phentrefi yn fannau hyd yn oed yn well i fyw ynddynt", rwy'n cydnabod yr effaith negyddol fyrdymor bosibl yn ystod y cam adeiladu, ond yn nodi effaith gadarnhaol hirdymor drwy leihau allyriadau carbon a'r gallu i reoli cynnydd sylweddol yn y galw am drydan. Mae effaith y penderfyniad hwn ar yr amcanion eraill yn niwtral.
27. Wrth ddod i'm penderfyniad, rwyf wedi ystyried y ffyrdd o weithio a nodir yn adran 5(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a 'SPSF1: Canllaw Craidd, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'. Nodir fy asesiad yn erbyn pob un o'r ffyrdd o weithio isod.

Ystyried y tymor hir

28. Mae'r penderfyniad yn ystyried manteision hirdymor sicrhau ffyrdd carbon isel o gynhyrchu ynni, gan helpu i gyflawni amcanion datgarboneiddio Llywodraeth Cymru a chreu storfeydd ynni ychwanegol, a rheoli cynnydd sylweddol yn y galw am drydan. Byddai'r prosiect a ganiateir yn sicrhau'r manteision hyn dros gyfnod hir, am fod ganddo oes weithredol o 125 o flynyddoedd.

Cynnwys pobl/Cydweithio ag eraill

29. O fewn fframwaith proses gwneud penderfyniadau statudol, a reolir gan weithdrefnau rhagnodedig, rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais ac ymgynghorwyd arno, a gynigiodd gyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae sylwadau a gafwyd drwy'r gweithdrefnau hyn wedi'u hystyried wrth benderfynu ar y cais hwn.

Dilyn dull gweithredu integredig

30. Mae'r penderfyniad yn ystyried effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ymestyn y cyfnod erbyn pryd y mae'n rhaid i'r datblygiad gychwyn.

Atal

31. Mae'r penderfyniad yn cynnig cyfle i waith ddechrau ar gynllun a ganiateir, a fyddai'n darparu cyfleuster cynhyrchu trydan carbon isel ac yn helpu i reoli cynnydd sylweddol yn y galw am drydan. Byddai'r cynllun hefyd yn helpu i ddatgarboneiddio'r sector ynni.

Camau Rhesymol

32. Rwyf wedi ystyried, mewn perthynas â dyletswydd llesiant Gweinidogion Cymru, a fyddai'n rhesymol gwneud penderfyniad gwahanol. Yr unig benderfyniad arall y gellid ei wneud fyddai gwrthod y cais. Byddai gwrthod y cais yn golygu, petai'r ceisydd am fwrw ymlaen â'r prosiect, y byddai'n rhaid iddo gyflwyno cais newydd am newid sylweddol i'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

33. Ni fyddai gwrthod y cais yn sicrhau'r manteision o ran datgarboneiddio ac ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd. Byddai gwneud hynny yn cael effaith negyddol ar yr amcanion i "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl" ac "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn". Felly, yn fy marn i, mae'r penderfyniad i wneud gorchymyn diwygio yn gam rhesymol tuag at gyflawni amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

Casgliadau a Phenderfyniadau

Penderfyniad

34. Rwy'n fodlon bod y cynnig i ymestyn dyddiad cychwyn y prosiect i 29 Mawrth 2026 yn newid ansylweddol i'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Felly, o dan baragraff 2(1) o Atodlen 6 i Ddeddf 2008, rwyf wedi penderfynu gwneud newid ansylweddol i'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu er mwyn awdurdodi'r newid a nodir yn y cais. Nodir y newid yng Ngorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygio) (Cymru) 2024.


Herio'r Penderfyniad

35. Nodir yr amgylchiadau lle y gellir herio penderfyniad Gweinidogion Cymru yn y nodyn a geir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Cyhoeddusrwydd i'r Penderfyniad

36. Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar y cais yn cael ei hysbysu fel sy'n ofynnol o dan reoliad 8 o Reoliadau 2011.

Yn gywir



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

ATODIAD

HERIAU CYFREITHIOL SY'N YMWNEUD â CHEISIADAU AM ORCHMYNION CYDSYNIAD DATBLYGU

O dan adran 118(5) o Ddeddf Cynllunio 2008, dim ond drwy wneud cais am adolygiad barnwrol y gellir herio penderfyniad o dan baragraff 2(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008 i newid Gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu. Rhaid i gais am adolygiad barnwrol gael ei gyflwyno i'r Llys Cynllunio yn ystod y cyfnod o chwe wythnos sy'n dechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y cyhoeddir y Gorchymyn sy'n gwneud y newid. Mae'r Gorchymyn diwygio fel y'i gwnaed yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn y cyfeiriad canlynol:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/storfa-bwmpio-glyn-rhonwy/>

Rhoddir y nodiadau hyn fel canllaw yn unig. Dylai person sy'n credu y gall fod ganddo sail dros herio'r penderfyniad i wneud y Gorchymyn y cyfeirir ato yn y llythyr hwn geisio cyngor cyfreithiol cyn cymryd unrhyw gamau. Os bydd angen cyngor ar y broses herio arnoch, dylech gysylltu â Swyddfa'r Llys Gweinyddol yn y cyfeiriad canlynol: Administrative Court Office, Royal Courts of Justice, Strand, London, WC2A 2LL (0207 947 6655)



Ein cyf/Our ref MA-JJ-0060-24

Dave Holmes
Managing Director
Snowdonia Pumped Hydro

By email: info@snowdoniapumpedhydro.co.uk

30th January 2024

Dear Mr Holmes

**THE PLANNING ACT 2008 – SCHEDULE 6
THE INFRASTRUCTURE PLANNING (CHANGES TO, AND REVOCATION OF,
DEVELOPMENT CONSENT ORDERS) REGULATIONS 2011
APPLICATION FOR NON-MATERIAL CHANGE TO THE GLYN RHONWY PUMPED
STORAGE GENERATING STATION ORDER 2017**

1. I have considered the application made by Snowdonia Pumped Hydro Ltd. (the applicant) for a non-material change to the Glyn Rhonwy Pumped Storage Generating Station Order 2017 (the Order), as corrected by the Glyn Rhonwy Pumped Storage Generating Station (Correction) Order 2017 and amended by the Glyn Rhonwy Pumped Storage Generating Station (Amendment) (Wales) Order 2021.
2. The Order grants development consent for the construction and operation of a 99.9MW pumped storage scheme at the Glyn Rhonwy and Chwarel Fawr quarries in Gwynedd. The Order was granted by the Secretary of State on 8 March 2017.
3. The Glyn Rhonwy Pumped Storage Generating Station (Amendment) (Wales) Order 2021 amended the date by which the development is required to commence from 28 March 2022 to 29 March 2024. The applicant's reasons for seeking the time extension related to COVID-19 restrictions, which, for example, prevented survey and monitoring work from being undertaken so that the various requirements in the Order could not be fulfilled.
4. The current application seeks a further extension of time for the commencement of the authorised development to 29 March 2026. The supporting information submitted with the application explains much of the required work to fulfil the various requirements in the Order has been undertaken. Work to discharge requirements of the Order is

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

[@llyw.cymru](mailto:info@llyw.cymru)
[@gov.Wales](mailto:info@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ongoing. However, the applicant's supporting statement explains there are significant and unprecedented rises in capital costs for the project, which mean a positive investment decision is likely to depend on the outcome of a UK Government support scheme, which the applicant expects to be announced in 2024 and, therefore, an extension to the date of commencement is required.

Consultation

5. Regulations 6 and 7 of the Infrastructure Planning (Changes to, and Revocation of, Development Consent Orders) Regulations 2011 (as amended) (the 2011 Regulations) set out the process for publicising and consulting on an application for a non-material change. The applicant has provided a consultation and publicity statement confirming the measures it has taken to comply with the requirements in the 2011 Regulations.
6. Objections were received from 3 local residents who argued the proposed extension of time for commencement of the project is not justified and leads to continued uncertainty for the local community. Concerns were also expressed regarding: the impact of the scheme on the World Heritage Site at Llyn Padarn; access to the site; impacts from construction activities, noise, dust and pollution; the risk of using the quarry for the proposed use, and the need for a grid connection.
7. Cadw notes "The Slate Landscape of Northwest Wales" was designated as a World Heritage Site by UNESCO in 2022. Cadw considers the scheme would result in a slight visual change from the World Heritage Site, but it would not have an impact on the way it is experienced, understood and appreciated.
8. The initial response from Natural Resources Wales of 10 November sought additional information from the applicant to clarify some technical points in the environmental information provided with the application. Following the submission of additional information by the applicant, NRW confirmed it had no objection to the application.
9. Dŵr Cymru, National Gas and the Ministry of Defence raised no objections. The Health and Safety Executive provided a response noting the scheme does not fall within the consultation distances of any Major Hazard Installation or Major Accident Hazard Pipeline.

Consideration of the application

10. I have considered whether the application is for a material or non-material change. There is no statutory definition of what constitutes a "material" or "non-material" change for the purposes of Schedule 6 to the Planning Act 2008 (the 2008 Act) and Part 1 of the 2011 Regulations. Paragraph 2(2) of Schedule 6 to the 2008 Act requires the Welsh Ministers, when deciding whether a change is material, to have regard to the effect of the changes on the Development Consent Order as originally made.
11. "Guidance on Changes to Development Consent Orders" published by the UK Government in 2015 notes the range of projects which are consented through the 2008 Act and the variety of changes which could possibly be proposed for a single project mean it is not possible to attempt to prescribe whether any particular types of change would be material or non-material. Such decisions will depend on the circumstances of the specific case. The guidance, however, states there may be circumstances which indicate a change to a consent is more likely to be treated as a material change, although these only form the starting point for assessing the materiality of a change. These are:

- (i) Whether an updated Environmental Statement (ES) would be required to take account of new, or materially different, likely significant effects on the environment
- (ii) If there is a need for a Habitats Regulations Assessment (HRA) or a new or additional licence in respect of European Protected Species
- (iii) If the change would authorise the compulsory acquisition of any land, or an interest in or rights over land, that was not authorised through the existing DCO
- (iv) The potential impact on businesses and residents in relation to matters such as visual amenity from changes to the size or height of buildings, impacts on the natural or historic environment and impacts arising from additional traffic

Environmental Statement

- 12. The application is supported by an Environmental Appraisal, which considers whether extending the timescale for commencing development by 24 months would be likely to give rise to any new, or materially different likely significant effects on the environment.
- 13. The Environmental Appraisal concludes no changes are identified that would give rise to any new or materially different likely significant effects. The requirements in the Order designed to limit effects on receptors would continue to apply, as would previously agreed mitigation measures. NRW agrees with the overall conclusions of the appraisal.
- 14. I am satisfied the proposed extension of time for commencing the project does not require an updated ES.

Habitats Regulations Assessment

- 15. A “Habitats Regulations Assessment 2023 Review” (HRA Review) has been submitted with the application. It updates the 2021 HRA Report, which supported the application for the Glyn Rhonwy Pumped Storage Generating Station (Amendment) (Wales) Order 2021. The HRA Review considers any updated policy or guidance since the 2021 HRA Report was produced, an updated search for other plans and projects for consideration when assessing in-combination effects and revisits the potential for Likely Significant Effects (LSE) and Adverse Effects On Integrity (AEOI) in light of any new information identified.
- 16. The HRA Review finds, as did the 2021 HRA Report, that for the majority of European sites, no LSE is likely to arise. Where the proposed development is predicted to lead to LSE on the Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn Special Area of Conservation (SAC) and the Glynllifon SAC, the mitigation measures identified in the 2021 HRA Report are unchanged. The HRA Review concludes the proposed scheme would not trigger adverse effects on the integrity of any European sites. NRW agree with the conclusions of the HRA Review.
- 17. As the findings in the HRA Review are effectively the same as those in the 2021 HRA Report I am satisfied, for the purposes of the Conservation of Habitats and Species Regulations 2017, the project would not adversely affect the integrity of any of the European sites identified.
- 18. I am also satisfied, in terms of considering whether the application comprises a non-material change, that no additional information is required for HRA purposes.

Compulsory Acquisition

19. I note the proposed changes do not require any compulsory acquisition.

Impact on Local Residents and Businesses

20. I note the objections and comments from local residents. As the delay to the commencement of the project grows, so does the potential significance of the uncertainty for local residents and businesses. Uncertainty about whether the project will commence and a construction completion date further into the future may adversely affect the well-being and investment decisions of some residents and businesses. I would be concerned if a consent of this kind did not contain a commencement deadline but I am satisfied the scale of the impact from a further delay of two years to this project does not amount to a material change for the purpose of this application.
21. Other than the above points, I note the impacts on local businesses and residents would not change.

Other considerations

Equality Act 2010

22. The Equality Act 2010 includes a public sector “general equality duty”. This requires public authorities to have due regard in the exercise of their functions to the need to eliminate unlawful discrimination, harassment and victimisation and any other conduct prohibited under the Act; advance equality of opportunity between people who share a protected characteristic and those who do not; and foster good relations between people who share a protected characteristic and those who do not in respect of the following “protected characteristics”: age; gender; gender reassignment; disability; marriage and civil partnerships; pregnancy and maternity; religion and belief; and race. I am satisfied there is no evidence of any harm, lack of respect for equalities, or disregard to equality issues in relation to this application.

Human Rights Act 1998

23. I have considered the potential infringement of human rights in relation to the European Convention on Human Rights by the Application. I note the proposed changes would not require compulsory purchase of land and I am satisfied the grant of changes would not be incompatible with any Convention right protected by the Human Rights Act 1998.

Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (WFG Act)

24. The Welsh Ministers must, in accordance with the WFG Act, carry out sustainable development. This includes taking all reasonable steps to meet their well-being objectives.

Well-being objectives

25. I have considered the extent to which allowing the non-material amendment to the DCO meets the Welsh Government’s well-being objectives. I recognise there will be some temporary negative environmental effects during the construction phase that would have a limited negative effect on the objective of making our cities, towns and villages even better places in which to live and work.

26. However, a decision to allow the non-material amendment would have a positive effect on the objectives to “Build a stronger, greener economy as we make maximum progress towards decarbonisation” and “Embed our response to the climate and nature emergency in everything we do”. Regarding the objective “Make our cities, towns and villages even better places in which to live and work”, I recognise the potential short-term negative effect during construction, but identify a long-term positive effect through the reduction of carbon emissions and ability to manage peaks in demand for electricity. The effect of this decision on the other objectives is neutral.
27. In reaching my decision, I have taken into account the ways of working set out at section 5(2) of the WFG Act and ‘SPSF1: Core Guidance, Shared Purpose: Shared Future – Statutory Guidance on the WFG Act’. My assessment against each of the ways of working is set out below.

Looking to the long-term

28. The decision takes account of the long-term benefits of securing a low carbon form of energy production, supporting Welsh Government’s decarbonisation objectives and additional storage of energy, helping to manage peaks in demand for electricity. The consented project would generate these benefits over a long time period, having a 125 year operational lifespan.

Involving people/Collaborating with others

29. Within the framework of a statutory decision making process, which is governed by prescribed procedures, the application was subject to publicity and consultation, providing the opportunity for public and stakeholder engagement. Representations received through these procedures have been considered and taken into account in making a determination on this application.

Taking an integrated approach

30. The decision considers the economic, social and environmental impacts of extending the period by which the development must commence.

Prevention

31. The decision provides the opportunity for works to commence on a consented scheme, which would provide low carbon electricity generation and help manage peaks in demand. The scheme would also help decarbonise the energy sector.

Reasonable Steps

32. I have considered whether, having regard to the Welsh Ministers’ well-being duty, it would be reasonable to take a different decision. The only alternative decision would be to refuse the application. Refusing the application would mean the applicant, if they wanted to pursue the project would have to re-apply for a material change to the DCO.
33. Refusing the application would not realise the benefits in terms of decarbonisation and responding to the climate change emergency. Such action would have a negative impact on the objectives to “Build a stronger, greener economy as we make maximum progress towards decarbonisation” and “Embed our response to the climate and nature emergency in everything we do”. Therefore, I consider the decision to make an

amending order is a reasonable step towards meeting the Welsh Ministers' well-being objectives.

Conclusions and Decisions

Decision

34. I am satisfied the proposed extension of the commencement date of the project to 29 March 2026 comprises a non-material change to the DCO. Therefore, I have decided under paragraph 2(1) of Schedule 6 to the 2008 Act to make a non-material change to the DCO to authorise the change detailed in the application. The change is set out in the Glyn Rhonwy Pumped Storage Generating Station (Amendment) (Wales) Order 2024.


Challenging the Decision

35. The circumstances in which the Welsh Ministers' decision may be challenged are set out in the note attached in the Annex to this letter.

Publicity for Decision

36. The Welsh Ministers' decision on this application is being notified as required under regulation 8 of the 2011 Regulations.

Yours sincerely



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

ANNEX

LEGAL CHALLENGES RELATING TO APPLICATIONS FOR DEVELOPMENT CONSENT ORDERS

Under section 118(5) of the Planning Act 2008, a decision under paragraph 2(1) of Schedule 6 to the Planning Act 2008 to make a change to an Order granting development consent can be challenged only by means of a claim for judicial review. A claim for judicial review must be made to the Planning Court during the period of 6 weeks beginning with the day after the day on which the Order making the change is published. The amending Order as made is being published on the Planning Inspectorate website at the following address:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/glyn-rhonwy-pumped-storage/>

These notes are provided for guidance only. A person who thinks they may have grounds for challenging the decision to make the Order referred to in this letter is advised to seek legal advice before taking any action. If you require advice on the process for making any challenge you should contact the Administrative Court Office at the Royal Courts of Justice, Strand, London, WC2A 2LL (0207 947 6655)